

# Aros Gartref (Holiadur COVID-19)

## Nodyn i rieni a gofalwyr:

Mae'r holiadur cenedlaethol hwn ar gyfer plant dan oed 7 a phlant hŷn a fydd yn manteisio o ddefnyddio opsiwn hygrch i rannu eu profiadau o aros gartref yn ystod argyfwng COVID-19.

Byddwn ni'n casglu'r ymatebion ac yn dadansoddi'r data. Bydd y data anhysbys wedyn yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, fel gallant glywed sut mae plant yng Nghymru yn teimlo am y sefyllfa ac ystyried unrhyw newidiadau sydd angen i gefnogi plant Cymru.

Rydym yn annog plant i ymateb yn annibynnol ac yn eu ffordd eu hun, lle mae'n bosib. Er hynny, gallwch gefnogi eich plentyn trwy drafod y cwestiynau ac unrhyw awgrym (prompt) gyda nhw.

Unwaith y bydd eich plentyn/plant wedi cwblhau'r holiadur, e-bostiwch yr holiadur (neu lun ohono) i [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk). Neu gallwch anfon neges breifat ar Twitter **@childcomwales** neu ar ein tudalen Facebook.

Os nad oes argraffydd gyda chi, croeso i chi dynnu llun neu ysgrifennu ar ddarn o bapur gwag a chyflwyno hyn fel eich ymateb.

Mi fyddai'n ddefnyddiol i ni os fedrwch chi gwblhau y data monitro isod, os gwelwch yn dda; dyw e ddim yn angenrheidiol eich bod chi'n ei gwblhau:

Oed y plentyn: \_\_\_\_\_


## Eich awdurdod lleol, lle rydych chi'n byw:

Abertawe	Conwy	Sir Fflint
Blaenau Gwent	Gwynedd	Sir Fynwy
Bro Morgannwg	Merthyr Tydfil	Sir Gar
Caerdydd	Pen y Bont ar Ogwr	Torfaen
Caerffili	Powys	Wrecsam
Casnewydd	Rhondda Cynon Taf	Ynys Môn
Castell-nedd Port Talbot	Sir Benfro	
Ceredigion	Sir Ddinbych	



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

## Aros Gartref (Holiadur COVID-19)



Dyma Sally.

Sally yw Comisiynydd Plant Cymru.


Swydd Sally yw sicrhau bod plant Cymru yn tyfu'n hapus, iach ac yn ddiogel.

Hoffai Sally glywed sut rwyf ti'n teimlo wrth aros gartref ar hyn o bryd.

Mae Sally eisiau rhannu dy farn gyda phobl sy'n medru cadw ti'n iach, hapus a diogel.

### 1. Sut wyt ti'n teimlo am aros gartref?

Lliwia neu rho gylch o gwmpas y wyneb sy'n dangos sut rwyf ti'n teimlo.



## 2. Dyweda wrth Sally am dy amser gartref trwy ysgrifennu neu dynnu llun yn y bocs isod.

Dyma rai cwestiynau i dy helpu di:

- Pa bethau wyt ti wedi bod yn gwneud gartref?
- Pwy sy'n cadw ti'n ddiogel?
- Wyt ti'n gweld eisiau unrhywbeth?

